



Cadw cofnodion o staff, cwsmeriaid ac ymwelwyr: ar gyfer y broses tracio (profi, olrhain, diogelu)

Pam mae angen casglu manylion?

Mae'n ofniad cyfreithiol o dan reoliad 12 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020.

Mae gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu GIG Cymru yn cael ei ddarparu i helpu i atal y feirws rhag lledaenu. Dylid cadw cofnod o'r holl staff, plant ac ymwelwyr, rhag ofn fod ei angen yn y dyfodol at ddibenion [strategaeth Profi, Olrhain, Diogelu](#) Llywodraeth Cymru pe bai achos o fewn y Cylch Meithrin.

Pa wybodaeth y mae angen ei chasglu?

Dim ond y wybodaeth angenrheidiol sydd angen er mwyn ei gwneud hi'n bosibl olrhain pe bai angen. Nodwyd isod y wybodaeth fydd yn cael ei chasglu at ddibenion Profi, Olrhain, Diogelu.

Staff

- Enwau'r staff sy'n gweithio yn y Cylch
- Rhif ffôn cyswllt ar gyfer pob aelod o staff
- Dyddiadau ac amseroedd gwaith y staff.

Cwsmeriaid (plant a'u teuluoedd)

- Enwau plant sy'n mynychu'r Cylch
- Rhif ffôn cyswllt ar gyfer pob plentyn
- Dyddiadau ac amseroedd pan oedd y plentyn yn bresennol

Ymwelwyr

- Enwau ymwelwyr
- Rhif ffôn cyswllt ar gyfer pob ymwelydd
- Dyddiad yr ymweliad, a'r amser cyrraedd a gadael.

Bydd y Cylch yn sicrhau bod canllawiau'r lleoliad ar gadw pellter cymdeithasol/corfforol a hylendid yn cael eu hegluro i ymwelwyr wrth iddynt gyrraedd neu o flaen llaw.

Dim ond ymwelwyr hanfodol sydd yn cael mynediad i'r Cylch Meithrin. Ni ystyrir rhieni neu ddarpar rieni sydd am ymweld â'r feithrinfa yn ymwelwyr hanfodol.

Sut gallwn sicrhau ein bod yn diogelu data?

Bod yn dryloyw

Yn unol â rheolau GDPR, byddwn yn sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r angen i gadw eu manylion a'u defnydd posibl. Byddwn yn rhoi gwybod i bawb sy'n dod i'r Cylch.

Cadw data yn ddiogel



Bydd y data personol sy'n cael ei gasglu yn cael ei warchod. Mae hynny'n golygu ei gadw'n ddiogel ar ddyfais digidol neu, ar gyfer cofnodion papur, yn cadw'r wybodaeth dan glo.

Ni fydd y wybodaeth personol sy'n cael ei chasglu ar gyfer profi ac olrhain at ddibenion eraill, fel marchnata neu i rannu gydag asiantaethau eraill (heblaw am wasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu GIG Cymru).

Dileu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru

Ni fyddwn yn cadw'r data personol sy'n cael eu casglu at ddibenion profi ac olrhain am fwy o amser nag y mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi, sef 21 diwrnod. Byddwn yn cael gwared ar y data yn ddiogel er mwyn lleihau'r risg y bydd rhywun arall yn cyrchu'r data.

Mae ein staff yn ymwybodol o bwysigrwydd cadw data personol yn ddiogel ac na ddylid rannu na defnyddio gwybodaeth am gyd-weithwyr, gwsmeriaid nac ymwelwyr at unrhyw ddibenion heblaw am y rhaglen olrhain cyswllt.

Rhannu gwybodaeth

Ni fydd y wybodaeth yn cael ei rhannu os na ofynnir amdani gan yr awdurdod iechyd cyhoeddus. Os bydd cynllun olrhain cyswllt yn cysylltu â ni, a gofynnir i ni ddarparu manylion unigolion, byddwn yn gwirio bod y galwr yn ddilys, ac yn bod ofalus y gall twyllwyr neu sgamwyr geisio cael gwybodaeth trwy esgus bod yn asiantaeth olrhain cyswllt.